HG35.5.89

# MARWNAD

AM

## *ANN JONES, O'R BUGEILYN,*

SWYDD DREFALDWYN,

*Yr hon a ymadawodd â'r byd hwn, Mehefin* 17, 1830,
*yn* 48 *mlwydd oed.*

---

1 BETH yw'r gofid dwys a'r galar,
Y griddfan a'r och'neidio sydd ?
Beth yw'r hiraeth sy'n cyniwair
Drwy'n hardaloedd nos a dydd ?
A ydyw angau annymunol
A'i weinidogaeth ar y ma's ?
Wrth fynych dramwy'n mhlith y werin,
Daeth i ardal Penffordd-lâs.

2 Brenin dychryniadau ydwyt,
Mae rhyw arswyd yn dy wedd ;
Gwnaethost rwyg yn muriau Seion,
Teflaist goron gref i'r bedd :
ANN gariadlon roist i orwedd
Yn ei hoeraidd wely pridd,
Hyd nes cano'r euraidd udgorn
Bore'r adgyfodiad ddydd.

3 Pam na buasit ti, y bradwr,
Yn taraw rhyw erlidiwr câs,
A gadael ANN, oedd mor ddefnyddiol,
I ryfela ar y ma's ?

V7C5 310663

Oni fuasai yn fwy cymhwys
  Iti adael iddi fyw,
Ac it' daro rhyw Herodias
  Sydd yn erlid eglwys Dduw?

4 Ond ofer myned i'th geryddu,
  Dyna drefn yr arfaeth fawr;
Rhifedi'r misoedd ddaeth i fynu
  Iddi aros ar y llawr:
'Roedd ei dyddiau wedi eu rhifo,
  Ac yn pwyso at y nod;
Ynfydrwydd oedd ymofyn rhagor,
  'Roedd pen ei thymhor wedi d'od.

5 Llafurus ydoedd yn ei theulu,
  Yn eu cynghori fore a nawn;
Cerydd dwys a roddai iddynt
  Am eu beiau'n fynych iawn:
D'wedai am atgasrwydd pechod,
  Satan, a'i ddichellion llawn,
A gogoniant Person Iesu,
  Yn nghyda maith rinweddau'r Iawn.

6 Hynod oedd o elusengar,
  Megis Dorcas yn ei dydd;
Cyfranu wnai yn ewyllysgar
  At gynnal gweinidogion ffydd:
Nid oedd drafferthus, megis Martha,
  Ond boddlon ydoedd, megis Mair;
A thrwy lu o orthrymderau,
  Ymdrechai dd'od i wrando'r gair.

7 Defnyddiol ydoedd yn yr eglwys,
  Fel rhyw gedrwydden gref;

Ac yn ngwyneb pob ystormydd,
  Ca'dd nerth i bara hyd ei bedd:
Bu'n sefydlog gyda'r achos,
  Er aml guro gan y gwynt,
Fel yr ydoedd Ruth yn glynu
  Wrth yr hen Naomi gynt.

8 Hardd a gweddus oedd ei rhodiad,
  Tra bu'n teithio'r ddaear gron,
Mewn crefyddol ymarweddiad,
  Pan oedd yn y fuchedd hon:
Y gair i'w thraed yn llusern ydoedd,
  Ac i'w llwybrau'n llewyrch clir;
Sugnai ei chysuron yma
  Pan oedd yn yr anial dir.

9 Fe'i gwelwyd yma dan y tònau,
  'N wylo'r dagrau lawer pryd,
Am fod gelynion yn ei chlwyfo,
  Ac yn ei blino yn y byd:
Fe'i clywyd wedi hyny'n tystio
  Ei bod yn teimlo heddwch llawn,
Yn ngwaed yr Hwn a ga'dd ei hoelio
  Ar ben Calfaria un prydnawn.

10 Os cafodd droi ei hwyneb yno,
  Cafodd deimlo hyfryd hedd
Yn ngwyneb brenin dychryniadau,
  Sef angau creulon iawn, a'r bedd.
Pwy ddichon dd'weyd nad oedd angylion
  Yn canu'n gyson yn y nef,
Wrth wel'd Ann yn d'od i fynu
  O'r dyfnion dònau tua thref?

11 Mae'm dychymyg im' yn tystio
Ei bod o fewn Caersalem draw,
Yn mysg angylion a seraphiaid,
A'i thelyn euraidd yn ei llaw,
Yn dechreu syllu a rhyfeddu
Tri'ndod o Bersonau'n un,
Ac yn gweled heddyw'n eglur
Yr Hwn a gym'rodd natur dyn:

12 Yn gwel'd y gwyneb boerwyd arno,
A'r pen fu dan y goron ddrain,
Ac yn gwel'd yr ystlys santaidd
Wânwyd gyda'r bicell fain!
Dysglaer ydyw'r olwg arnat,
Os wyt heddyw yn y nef;
Uchel yw dy sain yn canu
Haleliwia iddo Ef.

13 Doed yr Ysbryd i weithredu
Yn ei theulu ar ei hol,
Fel na byddo gwas anfuddiol
Yn eu plith, na morwyn ffol:
Doed ei phlant a'i phriod hawddgar,
A'i pherth'nasau oll o'r bron,
I godi'r groes a dilyn Iesu
Tra b'ont ar y ddaear hon.

14 Llwyddo wnelo'r weinidogaeth,
A'r athrawiaeth am y groes,
Sy'n cyhoeddi iachawdwriaeth
Trwy rinweddau angau loes,
I dd'od â gweithwyr eto lawer
I winllan Iesu i lanw ei lle,

Ac arnynt ddeuparth llawn o'i hysbryd
Mewn tangnefedd îs y ne'.

15 Ystyria hyn, ei phriod hawddgar,
Fod rhaid i tithau, cyn bo hir,
Wynebu dyffryn cysgod angau,
A gado'r dyrys anial dir!
O llefa beunydd am adnabod
Hedd a chymod yn y gwa'd,
Rhag i'th dymhor fyned heibio,
A'r haf i ddarfod heb leshad.

16 Chwi, ei phlant, sy'n mlodau'ch dyddiau,
Meddyliwch chwithau am yr awr;
Bydd raid ymadael â'ch ffolineb
Yn ngwyneb tragwyddoldeb mawr!
Chwi gawsoch ganddi eich rhybuddio
I fod yn effro, a gwylio'n hy',—
Mai byr yw'r tymhor roddwyd ichwi,
Rhaid llechu yn y ddaear ddû.

17 O de'wch i 'mofyn gwell pleserau
Na gwael deganau dan yr haul;
Mae mwy o bleser mewn un munud
Yn hyfryd gwmni Adda'r ail.
Dywedai Ann, tra yn ei bywyd,
Mai digon ydoedd cael mwynhau
Cyfeillach Iesu i'w dyddanu
Yn ngwyneb culni, poen, a gwae.

18 Cadarn oedd ei hyder ynddo,
Pan oedd yma yn y byd;
Mynych iawn y byddai'n wylo
Wrth gofio am ei angau drud:

Ond ni raid iddi wrth arwyddion
  Heddyw, yn y drydedd nef;
Nid oes eisiau mo'r elfenau
  I ddangos ei farwolaeth Ef.

19 Tithau'r eglwys filwriaethus,
  Sydd yma'n tywallt dagrau clir,
Cei sugn ar dy fronau eto,
  Er bod yn anmhlantadwy'n hir;
Fe ddaw'r Proffwyd mewn awdurdod
  I daflu ei fantell ar y wlad,
Fel y delo afradloniaid
  Adre'n llu i dŷ eu Tad.

20 Yn awr dymunaf, wrth ddystewi,
  Am i'r Duw a ddaliodd ANN,
Ddal ei phriod a'i pherth'nasau,
  A'u dwyn yn iach o'r byd i'r lân:
Yr arch gartrefo gyda'r teulu,
  Tra b'ont yma îs y nen,
Fel y gallont gyd-addoli
  A'r nefol dyrfa byth: Amen.

THOMAS JAMES, *Trefeglwys.*

*Cân y Negro bach mewn caethiwed.*

1 Ai gwir a glywodd Negro tlawd,
Fod plentyn Cymro iddo'n frawd,
'Run gwaed a chnawd ein dau?
Beth! brawd yn Nghymru deg ei dawn
I un sydd gaethwas cyfyng iawn,
Heb wel'd prydnawn rhyddhau!

2 Ai gwir a glywodd Negro caeth?
Ie, gwir, mi wn.—O Frydain daeth
Y newydd hynod hyn;—
Fod Ffynon goch Calfaria'n llawn
O bob rhinweddau, fore a nawn,
I olchi'r Negro'n wŷn.

3 Ai gwir a glywodd Negro bach,
Fod modd yn Nghrist i'w wneyd yn iach,
·Er dyfned yw ei glwy'?
Beth? modd yn nghlwyfau Iesu Grist
I wneyd yn llon fy enaid trist!
Wna'i ddim ond synu mwy!

4 Ai gwir fod bendith Nef i'w chael?
Ai gwir fod Duw yn rhoddwr hael?
Ie, gwir, 'rwy'n coelio hyn.
Ond nid oes neb, na nos na dydd,
I'm tywys at y ffynon sydd
Yn golchi'r Nègro'n wŷn.

5 Ai gwir i Iesu ar y groes
Ddyoddef ing ac angau loes
Yn nghanol llid a gwawd?—

A'i waed yn lli yn lliwio'r lle,
A'r Tad yn gwgu yn y ne',
Er mwyn y Negro tlawd?

6 Os gwnaed y lloer, y ser, a'r haul,
Y byd i gyd ar gadarn sail,
A braich anfeidrol gre';
Gwnaed mwy na hyn dros Negro tlawd,
Fe wisgwyd Duw mewn corff o gnawd
I oddef yn fy lle!

7 Os gwelir Negro byth yn lân,
Fe fydd yn uche iawn ei gân,
Heb ofni tra spryd hyn;
A'i law, a'i droed, a'i dafod rhydd,
Yn canu am y ffynon sydd
Yn golchi'r Negro'n wŷn.

8 Os rhwymwyd Iesu un prydnawn,
I Negro caeth gael rhyddid llawn,
I oesoedd rif y gwlith,
Ar faesydd hyfryd nefoedd lon,
Lle na bydd braw i rwygo'm bron,
Na fflangell *Massa* byth.

9 Ai gwir yw hyn?—Ie, gwir i gyd;
Fe godir Negro bach uwch byd,
O'r holl gaethiwed cas;—
Uwch lloer, uwch haul, uwch ser y nef!
O, syndod byth!—fe'i clywir ef
Yn canmol Duw a'i ras.

*Glanhafren.* ADELPHOS.

JONES, ARGRAFFYDD, LLANIDLOES.

Benj Bach ... [illegible]